ARGYMHELLION IS BWYLLGOR ADNODDAU
NOS IAU
21ain GORFFENNAF 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Annwen Daniels
Erwyn Jones
Mel Goch ap Meirion
Ronwen D Roberts
Gareth W Jones

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. Bancio
Bu i'r Is Bwyllgor gael gwybodaeth bod posibilrwydd bydd Banc y NatWest yn codi llogau ar falansau credid o fis Hydref.
Cadarnhawyd i'r Cyngor Tref dderbyn llythyr gan fanc yr HSBC, wedi ei ddyddio ym mis Ebrill ond heb ei dderbyn hyd at fis Mai, mewn ymateb i'w lythyr yn gofyn am gadarnhad na fyddai'r gangen leol yn cau. Cafwyd cadarnhad yn y llythyr hwn na fyddai'r gangen yn cau a hyn llai na mis cyn i'r banc gyhoeddi ei fwriad o gau'r gangen leol.
Argymhelliad: - Derbyniwyd y wybodaeth

2. Yswiriant
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r lefel o sicrwydd yswiriant sydd angen ar gyfer ein hadnoddau. Cytunwyd i dderbyn sicrwydd yswiriant am gyfnod o flwyddyn yn hytrach na chytundeb tair neu phum mlynedd oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â pha dir fydd yn ein meddiant ymhen blwyddyn. Cytunwyd i ychwanegu'r cwrs golff gwirion, y lloches ieuenctid ac 19 o finiau halen ar bris o £250 yr un i'r polisi. Bydd lefel yr Atebolrwydd Cyhoeddus yn aros ar £10 miliwn. Bydd y polisi newydd yn dod i rym ar 1af o Awst 2016.
Argymhelliad: - I dderbyn y pris o £3628.47 am flwyddyn